**Y Pwyllgor Diwylliant CC-11-01(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 20 Mehefin |
| **Amser:** | 9.00 o’r gloch |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Jonathan Morgan (Ceidwadwr, Canol De Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Richard Davies (Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol)

Russell Thomas (Pennaeth yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)

**Sylwadau rhagarweiniol**

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod y Pwyllgor yn cwrdd yn Ninbych ar fore'r 4ydd o Orffennaf ac y byddai wedyn yn teithio i Eisteddfod Gydwladol Llangollen lle yr oedd rhaglen o ddigwyddiadau wedi ei threfnu.

**Eitem 1: *Diwylliant Cytûn* – Cynllun Gweithredu**
**Papur: CC-11-01(p.1)**

Gwnaeth y Cadeirydd ychydig o sylwadau rhagarweiniol. Nododd i'r Pwyllgor hwn etifeddu'r adroddiad *Diwylliant Cytûn* oddi wrth y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed, i'r Cynulliad wedi hynny nodi'r adroddiad ac i'r Gweinidog wirfoddoli i ymateb i'r ddogfen. Mynegodd bryder nad oedd trefn yn bodoli o dan y rheolau sefydlog i orfodi Gweinidogion i ymateb yn swyddogol i adroddiadau Pwyllgorau. Byddai'n codi'r mater hwn mewn cyfarfod o Banel y Cadeiryddion a chytunodd hefyd i ysgrifennu at Grwp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad.

Cyflwynodd y Gweinidog ei Strategaeth Diwylliant. Dywedodd mai ymateb oedd y strategaeth i *Diwylliant Cytûn*, adroddiad manwl a restrai dros 100 o argymhellion na nodwyd eu costau na'u blaenoriaethu. Ffurf ddrafft sydd i'r strategaeth ac mae'n ceisio dangos sut y mae'r maes diwylliannol yng Nghymru wedi symud ymlaen er pan gyhoeddwyd *Diwylliant Cytûn.* Gofynnodd y Gweinidog am farn y Pwyllgor, CCANGYC (Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad) Diwylliannol a chyrff eraill â diddordeb.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Gofynnwyd i'r Gweinidog pam yr oedd y strategaeth yn cynnwys chwaraeon pan nad oedd cyfeiriad uniongyrchol at chwaraeon yn *Diwylliant Cytûn*. Atebodd fod hwn yn fater yr oedd wedi rhoi cryn ystyriaeth iddo a'i bod wedi penderfynu bod chwaraeon yn rhan annatod o'n diwylliant. Nododd hefyd fod diffiniad UNESCO o ddiwylliant a ddyfynnwyd yn *Diwylliant Cytûn* yn cynnwys chwaraeon. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod y Pwyllgor i fod i ddechrau ar arolwg o chwaraeon yn 2002. Trafododd y Pwyllgor a ddylid cynnwys chwaraeon mewn strategaeth diwylliant ac ai strategaeth diwylliant ynteu strategaeth celfyddydau oedd yr un a oedd gerbron y Pwyllgor. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad mai strategaeth celfyddydau oedd hon yn ei hanfod, ond na ellid gwahanu

chwaraeon, nac yn wir yr iaith Gymraeg, yn llwyr oddi wrth strategaeth o'r fath.

- Yr oedd y Cadeirydd yn pryderu nad oedd y strategaeth yn cynnwys cyfeiriad at y cynigion ar gyfer Cronfa Gelfyddydau Ieuenctid Genedlaethol nac at Gadair mewn Celfyddydau Cymuned. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried yr argymhellion hyn dros yr haf.
- Lleisiwyd pryderon nad cynllun gweithredu oedd strategaeth y Gweinidog, nad oedd targedau ynddi nac amserlen ar gyfer gweithredu ac nad oedd pedair tudalen ar ddeg gyntaf y strategaeth yn ychwanegu fawr ddim at y gorolwg o faes y celfyddydau a ddisgrifiwyd yn *Diwylliant Cytûn*. Gwnaed y pwynt hefyd mai'r CCANGYC a oedd yn gwneud llawer o'r gwaith da a gâi sylw yn y strategaeth ac nad oedd fawr ynddi am yr hyn yr oedd y Cynulliad ei hun yn ei wneud dros y celfyddydau. Atebodd y Gweinidog trwy ddweud bod y targedau a'r amserlen yn y strategaeth yn fwriadol annelwig, oherwydd nad yw'r blaenoriaethau ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf wedi eu gosod eto. Nododd fod y CCANGYC diwylliannol yn gweithredu yn ôl yr agenda a osodir yn y llythyr cylch gwaith blynyddol.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog beth oedd pwrpas a chost y Gronfa Ddatblygu'r Celfyddydau arfaethedig i ysgolion. Wrth ateb, cytunodd fod angen i amcanion y Gronfa fod yn llawer mwy penodol a datblygedig. Nododd un aelod y dylai cronfa o'r fath fod ar gyfer pobl ifanc yn gyffredinol ac nid yn benodol ar gyfer ysgolion.
- Pwysleisiodd y Cadeirydd ac aelodau eraill bwysigrwydd twristiaeth ddiwylliannol i economi Cymru a dywedwyd mai i'r Pwyllgor hwn y dylai Bwrdd Croeso Cymru fod yn atebol yn hytrach nag i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Bu peth trafod a ddylid dod â gwaith CADW hefyd dan y portffolio diwylliant.
- Cytunai'r Pwyllgor ynglyn â phwysigrwydd meithrin cysylltiadau â'r Cyngor Prydeinig er mwyn helpu i hybu artistiaid Cymru dramor. Soniodd y Cadeirydd fod y gwahanol grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn ddiweddar wedi enwebu cynrychiolydd yr un i eistedd ar grwp a oedd yn meithrin cysylltiadau â'r Cyngor Prydeinig. Gofynnodd am eitem agenda am gysylltiadau â'r Cyngor Prydeinig, cyn diwedd y sesiwn hwn. Ychwanegodd y Gweinidog ei bod yn ddiweddar wedi cynnal dau gyfarfod â'r Cyngor Prydeinig a'i bod yn benderfynol o gryfhau cysylltiadau'r Cynulliad â'r corff hwnnw.
- Bu peth trafod ar bwysigrwydd y Gronfa Ddatblygu Cerddoriaeth ac a oedd y gronfa o fewn llinellau cyllideb y celfyddydau ynteu addysg. Atebodd y swyddogion mai o fewn y Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant yr oedd y gronfa hon ar hyn o bryd. Ychwanegodd y Gweinidog fod y Gweinidog Addysg wedi ymrwymo i ffurfio cronfa yn ei lle wedi i'r cynllun cyfredol ddod i ben.

- Tynnodd yr aelodau sylw at bwysigrwydd swyddogaeth llywodraeth leol wrth ddarparu diwylliant a chwaraeon. Cytunai'r Gweinidog a dywedodd ei bod yn awyddus i awdurdodau lleol ailddechrau ymwneud â diwylliant. Gwyddai fod llawer o awdurdodau lleol wedi lleihau eu hymrwymiadau diwylliannol yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol.

Pwyntiau eraill a godwyd yn y drafodaeth oedd:

- Y ffaith nad oedd yr un o sefydliadau AU Cymru yn cynnig gradd mewn dawns.
- Yng nghyd-destun dysgu gydol-oes, pwysigrwydd cyfleoedd yn y celfyddydau ac addysg barhaus i bensiynwyr.
- Mae'r symiau amrywiol o TAW a godir ar seddi sinema etc yn dal yn bryder. Dywedodd y Cadeirydd fod hwn yn fater y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor Ewropeaidd ei ystyried.
- Crybwyllwyd materion darlledu, yn arbennig y problemau staffio ac adnoddau a oedd yn wynebu HTV Cymru ar hyn o bryd petai Carlton yn penderfynu rhoi llai o gymeriad rhanbarthol i'w cynnyrch. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cynnal tri chyfarfod â Clive Jones, Cadeirydd Carlton a'i sicrhaodd na fyddai'r cwmni yn gweithredu rhaglen o ganoli. Dywedodd hefyd ei bod wedi ysgrifennu at Kim Howells AS, y gweinidog darlledu newydd yn gofyn am gyfarfod yn fuan.
- Cytunodd y Gweinidog y byddai'n rhoi gwybod i'r aelodau mewn adroddiad yn y dyfodol am y cyllid Ewropeaidd a ddeuai i'r celfyddydau yng Nghymru trwy gyfrwng y rhaglen Diwylliant 2000.
- Apeliwyd ar Radio Wales i arbed "Station Road", ei opera sebon foreol, a pheidio â'i diddymu.

Gofynnodd yr Aelodau a gâi'r Pwyllgor yn ystod sesiwn yr hydref dderbyn a thrafod strategaeth ddiwygiedig a fyddai'n cynnwys cynllun yn rhestru pob argymhelliad yn *Diwylliant Cytûn*, y cam gweithredu a gynigiai'r Gweinidog ar gyfer pob argymhelliad, y sefydliadau a fyddai'n gyfrifol am weithredu'r cynigion a goblygiadau ariannol pob un. Cytunodd y Gweinidog i wneud hyn erbyn mis Tachwedd. Soniodd y Cadeirydd fod yr Is-adran Diwylliant ym Mharc Cathays yn enbyd o brin o adnoddau a bod angen cynyddu cryn dipyn arni os oedd y Cynulliad i roi'r pwysigrwydd a haeddai i ddiwylliant. Croesawodd y Gweinidog y sylwadau hyn a dywedodd fod yr Is-adran wedi tyfu'n sylweddol iawn dros y misoedd diwethaf a'i bod bellach yn gallu ymateb i anghenion sector y celfyddydau a diwylliant, y Pwyllgor a'r Cynulliad.

**Eitem 2: Cyflwyniad gan RESOURCE**
**Papur: CC-11-01(p.2)**

Rhoddodd y Gweinidog gyflwyniad byr i'r eitem hon. Dywedodd ei bod yn hanfodol, cyn sefydlu ein trefniadau ein hunain ar gyfer Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, ystyried datblygiad Resource yn Lloegr a sut y mae hyn wedi effeithio ar Gymru. Mae gwaith ar y gweill ar ymarfer ymgynghori ynglyn â threfniadau yng Nghymru a chyflwynir y papur ymgynghori hwnnw i'r Pwyllgor maes o law.

Cyflwynodd y Gweinidog Mr Neville Mackay, Prif Weithredwr Resource. Rhoddodd Mr Mackay gyflwyniad ar swyddogaeth a gwaith Resource. Y canlynol oedd y prif bwyntiau:

- Sefydlwyd Resource yn Ebrill 2000. Ei brif amcanion yw:

- Rhoi arweiniad strategol a hybu newid
- Gweithredu fel eiriolwr ac ymgyrchydd awdurdodol dros y sector newydd, cyfun
- Rhoi cyngor i’r llywodraeth ynglyn ag arferion gorau ac ynglyn â chyflwyno materion penodol fel safonau a TGCh

- Mae’r corff eisoes wedi cymryd camau breision ymlaen; mae wedi creu cysylltiadau agos â’r llywodraeth ganolog ac a’i hasiantaethau; mae wedi dechrau cynhyrchu dogfennau polisi, wedi rhoi cyfeiriad newydd i ymchwil ac i gasglu ystadegau ac wedi parhau i reoli nifer o dasgau a etifeddwyd ganddo.
- Mae parodrwydd ar ran Resource i ddiffinio ei berthynas â’r Cynulliad ac â’r sector diwylliannol yng Nghymru, ac mae concordat yn cael ei ddatblygu i’r perwyl hwn.
- Er pan ddaeth i fodolaeth, mae’r corff wedi dysgu sawl gwers ddefnyddiol:

- Nid yw’n ymarferol sefydlu corff â chylch gwaith ehangach, heb gynyddu’r gyllideb a gaiff.
- Mae’n bwysig rhoi digon o raff i gorff newydd iddo allu newid blaenoriaethau a phenodi staff newydd. Mae’n bwysig i gorff newydd o’r fath allu ymryddhau o’r patrymau arferol.
- Mae’n bwysig egluro cwmpas daearyddol corff newydd ac ystyried beth a olygir wrth y term ‘strategol’.
- Peidiwch â disgwyl canlyniadau yn syth oddi wrth gorff newydd.
- Mae’n bwysig i gorff newydd fod â Chadeirydd egnïol a Bwrdd sydd ag aelodau a ddaw o amrywiol ffynonellau ac sydd â gwahanol ddiddordebau.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Wrth ateb cwestiwn am berthynas Resource â Chyngor Amgueddfeydd Cymru, atebodd Mr Mackay fod Resource yn darparu yr un amrediad o wasanaethau a gwasanaethau o’r un ansawdd i’r Cyngor ag a fwynheuai o dan y Comisiwn Amgueddfeydd ac Orielau. Mae Resource wedi helpu’r Cyngor i sefydlu rhwydwaith amrywiaeth diwylliannol yng Nghymru ac mae’n fodlon cynnwys holl gyrff diwylliannol Cymru mewn prosesau ymgynghori a phenderfynu.
- Wrth ateb cwestiwn a holai a ellid ymestyn Resource i gynnwys aelodau o Gymru, teimlai Mr Mackay fod budd sylweddol i’w gael o fanteisio ar feysydd cyffredin a fodolai eisoes. Petai corff yn cael ei greu ar gyfer Cymru yn unig, byddai dadl dros roi cylch gwaith ehangach iddo a allai o bosibl gynnwys y dreftadaeth adeiledig.
- Dywedodd Mr Mackay ei fod yn fodlon â chylch gorchwyl presennol Resource, ond nododd nad oedd gan y corff reolaeth dros y cyllid a roddir i amgueddfeydd; o San Steffan y gweinyddir hynny o hyd.

Gorffennodd y Gweinidog trwy bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod syniadau da sy’n tarddu o Loegr yn llifo trwodd i Gymru a bod llawer i’w ddweud dros gyd-feddwl yn y maes hwn. Addawodd ddod â’r papur ymgynghori gerbron y Pwyllgor yn gynnar yn y sesiwn nesaf.

**Eitem 3: Blaenoriaethau'r Gyllideb**
**Papur: CC-11-01(p.3)**

Cyflwynodd y Gweinidog y sesiwn hwn trwy ddweud yr hoffai gael amcan o flaenoriaethau'r Pwyllgor mewn perthynas â chyllideb y flwyddyn nesaf. Hysbysodd yr aelodau y byddai CCANGYC yn cyhoeddi eu cynlluniau corfforaethol ddiwedd y mis ac y caent eu dosbarthu i'r aelodau. Yr oedd ceisiadau'r CCANGYC am gyllid yn debygol o fod yn llawer uwch na'r ddarpariaeth yn y gyllideb. Atgoffodd Mrs Randerson yr aelodau nad oedd hon yn flwyddyn adolygu gwariant; byddai'n rhaid i gyllid ychwanegol ddod o'r cyllidebau dangosol presennol.

Gwnaed y sylwadau canlynol yn y drafodaeth:

- Bu peth trafod ar bosibilrwydd cael cronfa gelfyddydau (tebyg i'r Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant), ar gyfer prosiectau penodol y byddai'r Pwyllgor am eu hyrwyddo, e.e. ysgoloriaethau ar gyfer artistiaid unigol.
- Roedd yr aelodau yn ystyried cyllido'r Gronfa Gelfyddydau Ieuenctid Genedlaethol yn flaenoriaeth.
- Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad o wariant y llynedd. Dywedodd fod £2.8 miliwn (5%) o'r £56 miliwn yn y gyllideb diwylliant heb ei wario. Yr oedd y rhan helaethaf o'r swm hwn yn arian a oedd wedi ei ddyrannu'n wreiddiol i Ganolfan Mileniwm Cymru. Pe tynnid CMC o'r ffigurau, dim ond 1.8% o gyfanswm y gyllideb oedd heb ei wario. Gellir cyfrif am £250k arall trwy'r grant i Gêm Derfynol Cwpan yr FA oherwydd nad oedd ffurf derfynol i'r amodau grant a'r trefniadau hawlio'n ôl cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gwerir yr arian hwn, fodd bynnag, fel y bwriadwyd yn wreiddiol.
- Trafododd y Pwyllgor y £2m a glustnodwyd ar gyfer CMC a'r £2m ychwanegol i'r celfyddydau ar draws Cymru. Byddai'r ail o'r rhain yn galluogi gweddill Cymru i elwa ar weithgareddau CMC pan fyddai'r Ganolfan ar waith. Credai rhai aelodau mai swm pitw oedd y £2m ychwanegol o gymharu â'r swm a wariwyd eisoes ar y Ganolfan. Cyfeiriodd y Gweinidog yr aelodau at bapur gan yr Ysgrifennydd Cyllid ar y mater hwn, a dderbyniwyd yn y Cyfarfod Llawn yn ddiweddar, a gâi ei ailddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor.
- Teimlai'r aelodau fod y sefydlogi ar Opera Genedlaethol Cymru (Y Cwmni Opera) a oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr yn fater gwerth ei ystyried fel rhan o gylch cyllideb y flwyddyn nesaf. Teimlai sawl aelod ei bod yn bwysig i CCC gyfrannu'n llawn at y broses sefydlogi. Canmolwyd prosiect allanol diweddar y Cwmni Opera, "Katerina" yn eang a nododd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Cwmni Opera i'w llongyfarch ar y fenter hon.
- Roedd peth cefnogaeth i'r syniad o ddatblygu CCC fel asiantaeth i hyrwyddo'r celfyddydau, gyda phwyslais cryf ar gelfyddyd gymunedol.
- Dywedodd y Gweinidog wrth yr aelodau fod ei chylch gwaith bellach yn cynnwys Gardd Fotaneg Cymru ac y câi hyn ei adlewyrchu yng nghyllideb y flwyddyn nesaf.
- Wrth ymateb i gwestiwn am gostau ailwampio CCC, nododd y Gweinidog mai'r

arwyddion ar hyn o bryd yw y byddai'r costau ariannol yn fras yn niwtral.

- Teimlai sawl aelod fod datblygu stiwdios a chyfleusterau ymarfer i artistiaid ifanc yn flaenoriaeth. Crybwyllodd y Gweinidog y byddai cyd-gynhadledd rhwng CCC a'r Bwrdd Croeso yn cael ei gynnal cyn hir i drafod y diwydiannau creadigol.
- Mae arian Cymunedau'n Gyntaf ar gael ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a chelfyddydol os ydynt yn gysylltiedig â phrosiectau adfywio cymunedol.
- Wrth ymateb i bryderon a fynegwyd ynglyn â chyflwr y ddrama Gymraeg, dywedodd y Gweinidog fod CCC yn ymwybodol o'r pryderon ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r maes hwn.

**Eitem 4: Adroddiad Gweinidog y Cynulliad**
**Papur: CC-11-01(p.4)**

Soniodd y Cadeirydd iddo fynychu dau gyfarfod cyntaf grwp llywio cais Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008 ac y byddai'n dosbarthu'r cofnodion i aelodau'r Pwyllgor. Soniodd fod maen tramgwydd ynglyn â dyraniad ariannol y Cynulliad i'r cais, ond yn ei farn ef, mater i'r Arglwydd Faer a'r Gweinidog oedd hynny.

Tynnodd y Gweinidog sylw'r Pwyllgor at sefydlu Fforwm Pêl-droed. Dywedodd ei bod ers tro wedi bod yn ystyried sefydlu fforwm o'r fath i ystyried strwythurau pêl-droed Cymru, yn benodol o ran datblygu pêl-droed. Roedd wedi cwrdd â chynrychiolwyr pêl-droed yng Nghymru i drafod yr angen i ddiffinio swyddogaethau eglurach ymhlith y gwahanol gyrff pêl-droed. Nod y Fforwm fydd creu strategaeth ar gyfer datblygu pêl-droed yng Nghymru, yn arbennig i bobl ifanc, yn fechgyn a merched. Rhoddir ffurf derfynol i'r cylch gwaith ac i'r aelodaeth dros yr ychydig wythnosau nesaf a threfnir y cyfarfod cyntaf ar gyfer diwedd yr haf. Croesawodd yr aelodau gyhoeddiad y Gweinidog.

**Eitem 5: Cofnodion y Pwyllgorau a gynhaliwyd ar 24 Mai a 6 Mehefin**

Papurau: CC-9-01(min) ac CC-10-01(min)

Derbyniwyd y rhain heb newid, er i Rosemary Butler nodi ei bod wedi anfon ymddiheuriad am fod yn absennol ar 24 Mai.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**
**Mehefin 2001**